

# Brîff Polisi: Nodweddion Gwarchoddedig a gofal di-dâl yng Nghymru

## Pwrpas y brîff

Pwrpas y brîff hwn ydy edrych ar fanylion demograffig pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig ac sy'n darparu gofal di-dâl yng Nghymru, ac sydd dros 16 oed.

Bydd y brîff hwn yn trafod:

- Anabledd
- Grwpiau ethnig
- Crefydd
- Statws partneriaeth gyfreithiol
- Cyfeiriadedd rhywiol

Os hoffech chi wybod mwy am rywedd, oedran, dwysedd gofalu neu amddifadedd, darllenwch ein brîff blaenorol – Cyfrifiad 2021<sup>1</sup>.

## Cyd-destun

Cynhaliwyd Cyfrifiad Cenedlaethol 2021 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 21 Mawrth 2021<sup>2</sup> dan amodau unigryw'r pandemig byd-eang, a ddechreuodd bron i flwyddyn cyn hynny. Mae'r Cyfrifiad yn casglu'r gronfa ddata fwyaf am boblogaeth y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, o gyfnod amser sengl. Yn yr achos hwn, yr 21ain o Fawrth 2021. Dylid nodi bod yr Alban wedi dewis gohirio eu cyfrifiad am flwyddyn galendr, felly fe'i cynhaliwyd ar 20 Mawrth 2022<sup>3</sup>. Mae hyn yn golygu na ellir gwneud unrhyw ddata cymharol rhwng Cymru a'r Alban. Cynhaliwyd y cyfrifiad yng Ngogledd Iwerddon ar yr un dyddiad ag yng Nghymru a Lloegr, ond fel yn yr Alban, mae'n cael ei oruchwylio gan asiantaeth wahanol (Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon), ac felly mae'n bosibl y bydd rhywfaint o anghysondebau bychain yn y data hwn.

Fe allai'r cyfrifiad gael ei gwblhau ar-lein a thrwy'r post, a chafodd ei gwblhau gan 1,347,114 o aelwydydd yng Nghymru<sup>4</sup>.

Mae cwestiwn ynghylch p'un a yw rhywun yn ofalwr di-dâl wedi cael ei gynnwys yn y tri chyfrifiad diwethaf<sup>5</sup> (2001, 2011, 2021), ac mae'r cwestiwn wedi newid yn sylweddol ar bob

<sup>1</sup> <https://www.carersuk.org/briefings/policy-briefing-census-in-wales-2021/>

<sup>2</sup> [https://cyfrifiad.gov.uk/ynglyn-ar-cyfrifiad?\\_gl=1\\*nqqyw3\\*\\_ga\\*MTQ4NzkzODgyNC4xNjg0ODUwMjE3\\*\\_ga\\_KS8C77G8D9\\*MTY4NDg1MDIxNy4xLjAuMTY4NDg1MDIxNy42MC4wLjA](https://cyfrifiad.gov.uk/ynglyn-ar-cyfrifiad?_gl=1*nqqyw3*_ga*MTQ4NzkzODgyNC4xNjg0ODUwMjE3*_ga_KS8C77G8D9*MTY4NDg1MDIxNy4xLjAuMTY4NDg1MDIxNy42MC4wLjA)

<sup>3</sup> Ibid

<sup>4</sup> <https://www.llyw.cymru/demograffeg-mudo-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html>

<sup>5</sup> <https://www.ons.gov.uk/census/planningforcensus2021/questiondevelopment/healthandunpaidcarequestiondevelopmentforcensus2021#:~:text=The%20unpaid%20care%20question%20was,aged%205%20to%2017%20years>

achlysur. Bydd hyn yn golygu bod yr holl ffigyrau'n gymharol, ond nid yn union yr un fath, fel gyda gwybodaeth draddodiadol arall sydd yn cael ei chasglu gan y cyfrifiad.

Mae gofalwr di-dâl yn cael ei ddiffinio gan Gofalwyr Cymru fel rhywun sy'n darparu cefnogaeth a gofal di-dâl i un neu fwy o bobl am eu bod yn sâl; gydag anabledd; yn fregus; gyda chyflwr iechyd meddwl; â dibyniaeth; neu sy'n hŷn. Gofynnwyd i bobl adnabod eu hunain o fewn y cyfrifiad gyda'r cwestiwn "Ydych chi'n edrych ar ôl, neu'n rhoi unrhyw gymorth neu gefnogaeth i, unrhyw un oherwydd bod ganddynt gyflyrau neu salwch iechyd corfforol neu iechyd meddwl hirdymor, neu broblemau sydd yn gysylltiedig â henaint?"<sup>6</sup> Mae'r data a gasglwyd wedi'u cymryd yn bennaf o'r set ddata 'Gofal di-dâl a nodweddion gwarchoddedig'<sup>7</sup>, lle mae'r niferoedd yn y boblogaeth wedi'u talgrynnu i'r 5 unigolyn agosaf. Dim ond oedolion dros 16 oed sydd wedi'u cynnwys yn y set ddata hon oni bai y crybwyllir hynny'n benodol. Dylid nodi y gallai fod anghysondebau bychain rhwng setiau data pan fydd gwybodaeth ddeuaidd (gwryw/benyw neu anabl/ddim yn anabl) yn achosi i rai pobl gael eu gosod y tu allan i'r set ddata<sup>8</sup>.

Roedd y cwestiwn yn y cyfrifiad am anabledd yn cyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb 2010<sup>9</sup>. Roedd y rheini a ddatganodd fod ganddyn nhw gyflwr nad oedd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, neu nad oedd â chyflwr, yn cael eu hystyried yn bobl nad oedd yn anabl. Mae'r iaith drwy gydol y briff yn adlewyrchu'r termau a ddefnyddiwyd yn y data ac yn y dogfennau cysylltiedig. Yn fwyaf nodedig, defnyddir LHD+ yn hytrach na defnydd arferol Gofalwyr Cymru o LHDTC+.

Roedd y cwestiynau am grwpiau ethnig yn cael eu gofyn mewn dau gam. Roedd y cam cyntaf yn canfod i ba un o'r pum grŵp ethnig lefel uchel canlynol yr oedd unigolyn yn perthyn:

- Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig
- Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd
- Cymysg neu Aml-ethnig
- Gwyn
- Grŵp ethnig arall

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr wedyn enwi eu hunaniaeth o blith un o 19 o opsiynau posibl ar gyfer ymateb, a'r rheini'n cynnwys categorïau gyda'r opsiwn i ysgrifennu eu hymatebion. Bydd y briff hwn yn defnyddio data o'r 19 o opsiynau ymateb hyn.

Roedd y cyfrifiad yn gofyn am grefydd pobl yng nghyd-destun ymlyniad crefyddol unigolion, yn hytrach na chyfeirio at gymryd rhan weithgar mewn crefydd. Roedd y cwestiwn hwn hefyd yn ddewisol, felly roedd modd ei hepgor. Dylid dwyn hyn i gof wrth ddarllen y dadansoddiad.

Roedd statws partneriaeth gyfreithiol wedi'i rannu'n bum categori. Wrth ddadansoddi yn yr

<sup>6</sup> Gofal di-dâl, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021

<sup>7</sup> <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>8</sup> Ibid

<sup>9</sup> Deddf Cydraddoldeb 2010

adran hon, nid oes modd cymharu â data 2011 gan fod partneriaethau sifil wedi'u hail-ddiffinio i gynnwys parau heterorywiol yn ogystal â chyfunrywiol.

Mae gwybodaeth am ofalwyr LHD+ (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol ac eraill) yn newydd, gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf i'r cyfrifiad ofyn y cwestiwn hwn. Dim ond i bobl dros 16 oed y gofynnwyd y cwestiwn hwn ac roedd yn ddewisol, felly mae'r wybodaeth yn gywir ar gyfer y rheini a roddodd y wybodaeth hon yn unig. Mae'r term LHD+ yn cael ei ddefnyddio yn y ddogfen hon i adlewyrchu beth a ofynnwyd yn arolwg y cyfrifiad.

Pan luniwyd y briff hwn, nid oedd data fesul rhanbarth ar gael ar gyfer Cymru (yn wahanol i Loegr) felly ni ellir darparu data rhanbarthol.

## **Ffigyrau Tudalennau Blaen i Gymru**

---

- Mae gan bron i draean y gofalwyr di-dâl (29.8%) anabledd eu hunain.
- Y grŵp ethnig mwyaf cyffredin ymhlith gofalwyr yw Gwyn: Seisnig, Cymreig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig, sef 92.9%.
- Mae dros 90% o ofalwyr yn Gristnogion (45.5%) neu'n ddigrefydd (45.4%)
- Mae hanner y gofalwyr di-dâl wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil (50.9%)

Roedd 4% o ofalwyr yn dweud eu bod yn perthyn i'r gymuned LHD+. Mae hynny'n 16% o'r holl gymuned LHD+ yng Nghymru

## **Anabledd a gofal di-dâl**

---

Mae bron i 3 ym mhob 10 gofalwr di-dâl (29.8%)<sup>10</sup> yn eu hystyried eu hunain yn bobl sydd ag anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu bod tua 92,380 o bobl neu 3% o boblogaeth Cymru yn bobl anabl ac yn ofalwyr ill dau. I roi darlun gweledol o hynny, dyna ddigon o bobl i lenwi Stadiwm Principality, gan adael bron i 18,000 yn rhagor heb docynnau.

Mae 11.7%<sup>11</sup> o'r boblogaeth sy'n ofalwyr neu tua 36,270 o bobl yn darparu gofal di-dâl tra bo ganddyn nhw anabledd sy'n cyfyngu llawer arnyn nhw.<sup>12</sup> Yn rhyfeddol, mae hyn yn cyfateb i dros 1% o holl boblogaeth Cymru.

Nid yw'n syndod bod faint o ofal y mae pobl sydd ag anabledd yn ei roi yn cynyddu gyda nifer yr oriau o ofal y maen nhw'n ei roi. Ymhlith pobl sydd ag anabledd sy'n cyfyngu ychydig arnyn nhw, mae 17.9% yn gofalu am rhwng 1 a 9 awr yr wythnos, tra bo 20% yn gofalu am dros 50 awr yr wythnos. Mae'r cynnydd hwn yn uwch eto ymhlith y rheini y mae eu

---

<sup>10</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>11</sup> Ibid

<sup>12</sup> Diffinnir anabledd fel anabledd sy'n cyfyngu ychydig ac anabledd sy'n cyfyngu llawer  
Briff Polisi | Mawrth 2023 | Cyfrifiad 2021

hanabledd yn cyfyngu llawer arnyn nhw, gyda dim ond 7% yn gofalu am lai na 9 awr yr wythnos, a dros ddwbl hynny, 16.8%, yn rhoi gofal am dros 50 awr yr wythnos<sup>13</sup>.

Mae'n hynod o debygol bod sut y mae pobl yn eu hadnabod eu hunain yn fater o bwys, gyda'r rheini sy'n gofalu am y cyfnodau byrraf yn cymryd hwy i'w hadnabod eu hunain fel gofaluwr na phobl y mae eu rôl fel gofaluwr yn cael effaith amlycach arnyn nhw. Mae ymchwil Carers UK yn Lloegr hefyd yn dangos bod gofalu'n cael effaith niweidiol ar iechyd pobl. Mae gan ofalwyr fwy o broblemau cefn neu gymalau a mwy o broblemau pwysedd gwaed uchel na'r rheini nad ydyn nhw'n ofalwyr,<sup>14</sup> a chredir mai'r rôl ofalu sydd wedi achosi'r problemau hyn yn bennaf.

Gan edrych ar ochr drymaf y profiad gofalu, sef y rheini sy'n gofalu am 50 awr neu ragor yr wythnos, roedd dros draean (36.8%)<sup>15</sup> yn eu hystyried eu hunain yn anabl, ac roedd gan un ym mhob saith (15.8%) anabledd a oedd yn cyfyngu llawer arnyn nhw<sup>16</sup>.

Yn ein hadroddiad blaenorol<sup>17</sup>, fe wnaethon ni gyfrifo bod 107,000 o ofalwyr yn darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos, sy'n golygu bod anabledd gan 39,376 o bobl yng Nghymru sy'n gofalu am dros 50 awr yr wythnos. Mae'n golygu hefyd bod cyflwr sy'n cyfyngu llawer ar 16,906 o bobl sy'n gofalu am dros 50 awr.

O gymharu pobl sydd ag anableddau â'r rheini sydd heb anableddau, mae rhywun sydd ag anabledd yn fwy tebygol o fod ofalwr (29.8%)<sup>18</sup> na rhywun sydd heb anabledd (21.4%)<sup>19</sup>. Mae'r gyfradd hon yn uwch yn Lloegr hefyd, lle mae gan 27.5%<sup>20</sup> o bobl sydd ag anabledd rôl ofalu.

Ym mhob rhaniad yn y boblogaeth, os bydd gan rywun anabledd, mae'n fwy tebygol o fod yn ofalwr pan fydd rhwng 5 oed a 90 oed nag yw o beidio â bod yn ofalwr ac o fod ag anabledd<sup>21</sup>. Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod pobl sydd ag anghenion ychwanegol yn eu hanfod yn fwy tebygol o fod wedi'u cysylltu â phobl eraill sydd ag anghenion ychwanegol. Yn sylfaenol, mae hyn yn dangos pa mor hollbwysig yw iechyd wrth ganfod achosion o ofal di-dâl ac wrth roi cymorth yn y camau cychwynnol, gan fod cyfran mor fawr o'r boblogaeth sy'n ofalwyr yn debygol o fod yn defnyddio cyfleusterau meddygol – gyda'r bobl y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw, yn ogystal ag ar eu pennau'u hunain. Mae hyn hefyd yn pwysleisio bod angen meddwl yn ystwyth wrth roi cymorth i ofalwyr, gan fod y tebygolrwydd yn uwch o lawer y bydd ganddyn nhw'u hanghenion ychwanegol eu hunain nag ymhlith y boblogaeth nad yw'n gofalu.

<sup>13</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>14</sup> <https://www.carersuk.org/media/shbb4c0s/carers-uk-gp-patient-survey-report-2021-web.pdf>

<sup>15</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>16</sup> Ibid

<sup>17</sup> <https://www.carersuk.org/briefings/policy-briefing-census-in-wales-2021/>

<sup>18</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>19</sup> Ibid

<sup>20</sup> Ibid

<sup>21</sup> Ibid

Dylid ystyried hyn ar lefelau llywodraeth leol lle gellir gweld y berthynas rhwng gofalwyr a phobl sydd ag anabledd yn un ddeuaidd, a'r berthynas honno'n debygol o fod yn un ddwyochrog.

## Grwpiau ethnig a gofal di-dâl

Mae'r grŵp mwyaf o ofalwyr di-dâl ym mhoblogaeth Cymru yn bobl a oedd yn arddel hunaniaeth Gwyn: Seisnig, Cymreig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig, sef 92.9%<sup>22</sup> neu tua 288,000 o bobl. Mae hyn yn sylweddol wahanol i Loegr lle mai dim ond 78.3%<sup>23</sup> o ofalwyr a oedd yn arddel hunaniaeth y grŵp ethnig hwnnw.

Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig oedd yr ail grŵp uchaf yn y boblogaeth, ac yna grwpiau cymysg neu aml-ethnig; Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd; a grwpiau ethnig eraill<sup>24</sup>.

Gan edrych ar fanylion yr 19 o is-grwpiau ethnig, ym mhob un o'r rhain, mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod yn ofalwyr. Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach ganfyddiadau ein briff blaenorol, sef bod angen cryn newid cymdeithasol o hyd fel nad yw gofal di-dâl yn cael ei ystyried yn ddyletswydd ar fenywod yn unig<sup>25</sup>.

Ceir gwahaniaethau diwylliannol sylweddol, gyda phobl o gefndir Tsieneaidd ac Indiaidd yn fwy tebygol o lawer o rannu gofal rhwng dynion a menywod<sup>26</sup>, tra bo'r gwahaniaethau mwyaf ymysg y rheini o gefndir Bangladeshaid neu Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig<sup>27</sup>. Gan ddadansoddi gofalwyr fel eu cyfran ym mhoblogaeth gyffredinol pob grŵp ethnig, mae rhai pethau diddorol i'w gweld o ran cyrraedd gofalwyr. Yn gyfrannol, mae'r rheini sy'n hanu o gefndir Asiaidd, mewn pedwar o'r pum prif gategori ethnig, yn eu hadnabod eu hunain fel gofalwyr yn llai aml nag unrhyw grŵp ethnig penodol arall<sup>28</sup>. Dim ond y rheini a oedd yn arddel hunaniaeth Asiaidd: Pacistanaidd a oedd â chanran uwch yn hyn o beth na'r canran cyfartalog cyffredinol<sup>29</sup> ar gyfer gofalwyr mewn grŵp ethnig.

Ac ystyried bod y data'n dangos bod gan y poblogaethau Pacistanaidd a Bangladeshaid yr

<sup>22</sup> Ibid

<sup>23</sup> Ibid

<sup>24</sup> [https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021.html?\\_ga=2.94557724.1431844767.1684850326-738310462.1669900403&\\_gl=1\\*1rbcqmp\\*\\_ga\\*NzM4MzEwNDYyLjE2Njk5MDA0MDM.\\*\\_ga\\_L1471V4N02\\*MTY4NDg1MDM.yNS4zNS4wLjE2ODQ4NTAzMjUuMC4wLjA](https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021.html?_ga=2.94557724.1431844767.1684850326-738310462.1669900403&_gl=1*1rbcqmp*_ga*NzM4MzEwNDYyLjE2Njk5MDA0MDM.*_ga_L1471V4N02*MTY4NDg1MDM.yNS4zNS4wLjE2ODQ4NTAzMjUuMC4wLjA)

<sup>25</sup> <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>26</sup> Ibid

<sup>27</sup> Ibid

<sup>28</sup> Ibid

<sup>29</sup> Ibid

un nifer o bobl anabl (12%)<sup>30</sup>, mae hyn yn dangos yn glir nad yw'r poblogaethau hyn yn cael y wybodaeth neu'r cyngor y mae eu hangen arnyn nhw, boed drwy wahaniaethau diwylliannol neu ddiffyg gwybodaeth a chyngor sy'n addas yn ddiwylliannol. Gellir gwneud dadl debyg ar gyfer pobl sy'n hanu o gefndir Du: Affricanaidd, gyda'r boblogaeth hon yn eu hadnabod eu hunain fel gofalwyr yn llai aml o lawer na phobl o gefndiroedd Du eraill neu gefndiroedd Du cymysg neu aml-ethnig<sup>31</sup>.

Ar y pegwn arall, ceir pobl o gefndir Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig. Er bod gan y grŵp hwn un o'r ddau wahaniaeth mwyaf rhwng gwrywod a benywod, ganddo hefyd y mae'r boblogaeth uchaf o ofalwyr drwyddi draw o fewn grŵp ethnig, a hynny yn achos y ddau rywedd, sef 12% ac 16% yn y drefn honno<sup>32</sup>.

Mae hyn yn dangos yn glir bod angen ffocws wrth ystyried adnoddau ar gyfer y boblogaeth hon, ac atgyfnerthir hyn gan y ffaith mai gan y grŵp ethnig hwn y mae'r gyfran uchaf o bobl sydd ag anabled, sef 27%<sup>33</sup>.

## Crefydd a gofal di-dâl

Yng Nghymru, Cristnogaeth yw'r grefydd fwyaf cyffredin ymhlith gofalwyr, ac yn agos at hynny ceir pobl sydd heb ymlyniad crefyddol (45.5% a 45.4% yn y drefn honno<sup>34</sup>). Mae'r cyfuniad o grefyddau yn dilyn yn fras gyfansoddiad cyffredinol y boblogaeth<sup>35</sup>.

Ym mhob poblogaeth grefyddol sy'n eu hadnabod eu hunain fel gofalwyr, mae'r niferoedd yn cyd-fynd â rhaniad y grwpiau ethnig. Roedd pobl a oedd yn arddel hunaniaeth Hindŵaidd neu Sikh yn llai tebygol o lawer o'u hadnabod eu hunain fel gofalwyr na phobl a ddilyniad grefyddau eraill<sup>36</sup>. Roedd hyn fwyaf amlwg ymhlith y boblogaeth fenywaidd, sef 7.5% a 8.7%. Dyma'r unig grwpiau benywaidd lle'r oedd llai na'r cyfartaledd o 10% yn eu hadnabod eu hunain fel gofalwyr. Yn ddiddorol, y ganran isaf nesaf oedd 10.1%, sef Mwslimiaid, a hynny'n awgrymu ymhellach ddiffyg adnabyddiaeth ymhlith y boblogaeth Asiaidd<sup>37</sup><sup>38</sup>.

Drachefn, nid oedd mwy o ddynion na menywod yn ofalwyr mewn unrhyw grŵp crefyddol<sup>39</sup>.

<sup>30</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity/articles/ethnicgroupdifferencesintheemploymenteducationandhousingshowninenglandandwalescensus2021/2023-03-15>

<sup>31</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>32</sup> Ibid

<sup>33</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity/articles/ethnicgroupdifferencesintheemploymenteducationandhousingshowninenglandandwalescensus2021/2023-03-15>

<sup>34</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>35</sup> <https://www.gov.wales/ethnic-group-national-identity-language-and-religion-wales-census-2021-html>

<sup>36</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>37</sup><https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/adhocs/10999religionbysexandagegroupinggreatbritain2018to2019>

<sup>38</sup> Ibid

<sup>39</sup> Ibid

Y bobl fwyaf tebygol o'u hadnabod eu hunain fel gofalwyr, boed yn wrywaidd neu'n fenywaidd, oedd y rheini a ddewisodd 'crefydd arall'. Oherwydd natur wasgaredig y grwpiau hynny a'r niferoedd isel ynddyn nhw<sup>40</sup>, nid yw'n bosibl canfod unrhyw resymau pendant dros hyn.

Yn ddiddorol, prin yw'r gwahaniaeth ystadegol rhwng pobl ddigrefydd, pobl Gristnogol a phobl na roddodd ateb, sydd i gyd yn fwy tebygol o arddel hunaniaeth y categori Gwyn: Seisnig, Cymreig, Albanaid, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig<sup>41</sup>. Mae hyn yn awgrymu'n gryf nad yw ymlyniad crefyddol ymhlith y grŵp ethnig hwn yn cael llawer o effaith ar eu hymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau gofalu.

## Statws Partneriaeth Gyfreithiol a gofal di-dâl

Mae mymryn dros hanner y gofalwyr di-dâl (50.9%)<sup>42</sup> wedi priodi neu'n byw yn rhan o bartneriaeth sifil. Y boblogaeth fwyaf nesaf oedd pobl nad ydyn nhw erioed wedi priodi nac wedi cofrestru ar gyfer partneriaeth sifil, sef 36.4%<sup>43</sup>. Mae hyn yn golygu mai dim ond 12.7%<sup>44</sup> o'r boblogaeth sy'n gofalu sydd wedi gwahanu neu ysgaru, neu sy'n weddwon.

Mae hyn yn dra gwahanol i'r boblogaeth nad ydyn nhw'n ofalwyr, lle mai dim ond 42.6%<sup>45</sup> sy'n briod, ac mae pobl sydd wedi gwahanu neu ysgaru a gweddwon yn rhan fwy o lawer o'r boblogaeth, sef 19.2%. Dylid nodi, serch hynny, nad oes gennyn ni syniad faint o'r 7% o bobl nad ydyn nhw'n ofalwyr ac sy'n weddwon a fu'n ofalwyr o'r blaen<sup>46</sup>.

Yn ddiddorol, mae'r rheini sy'n gofalu am 50 awr neu ragor yn fwy tebygol o fod yn briod neu'n rhan o bartneriaeth sifil, gyda 53.5%<sup>47</sup> o'r is-set hon yn perthyn i'r categori hwn.

## LHD+ a gofal di-dâl

Roedd 4%<sup>48</sup> o ofalwyr di-dâl yn arddel hunaniaeth y gymuned LHD+, sy'n cyfateb yn fras i

<sup>40</sup> [https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html?\\_ga=2.69342480.1431844767.1684850326-738310462.1669900403&\\_gl=1\\*i76s18\\*\\_ga\\*NzM4MzEwNDYyLjE2Njk5MDA0MDM.\\*\\_ga\\_L1471V4N02\\*MTY4NDg1MDMyNS4zNS4xLjE2ODQ4NTAzNTAuMC4wLjA](https://www.llyw.cymru/grwp-ethnig-hunaniaeth-genedlaethol-iaith-chrefydd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html?_ga=2.69342480.1431844767.1684850326-738310462.1669900403&_gl=1*i76s18*_ga*NzM4MzEwNDYyLjE2Njk5MDA0MDM.*_ga_L1471V4N02*MTY4NDg1MDMyNS4zNS4xLjE2ODQ4NTAzNTAuMC4wLjA)

<sup>41</sup> <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>42</sup> Ibid

<sup>43</sup> Ibid

<sup>44</sup> Ibid

<sup>45</sup> Ibid

<sup>46</sup> Ibid

<sup>47</sup> Ibid

<sup>48</sup> <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

tua 12,400 o bobl drwy Gymru. Mae hyn yn golygu 1 ym mhob 7 (16%) o'r holl boblogaeth LHD+ yng Nghymru<sup>49</sup>. Mae hyn yn golygu bod rhywun sy'n LHD+ dros 5% yn fwy tebygol o fod yn ofalwr na rhywun ym mhoblogaeth gyffredinol y gofalwyr.

Mae'r tebygolrwydd o fod yn rhan o'r gymuned LHD+ ac o fod yn ofalwr di-dâl yn uwch rhwng 16 a 65+ oed<sup>50</sup>, gyda dim ond menywod rhwng 50 a 64 oed<sup>51</sup> ac unrhyw un dros 65<sup>52</sup> o fewn pwynt canran i bobl LHD+. Mae hyn yn golygu bod pobl LHD+ yn fwy tebygol o fod mewn sefyllfa lle byddan nhw'n dechrau gofalu pan fyddan nhw'n iau, gan naill ai barhau i ofalu neu wneud nifer o rolau gofalu yn ystod eu hoes.

Roedd 3.9%<sup>53</sup> o ofalwyr di-dâl yn Lloegr hefyd yn arddel hunaniaeth LHD+. Mae tebygolrwydd uwch yn nata Lloegr hefyd<sup>54</sup> y byddan nhw'n gofalu ac yn gofalu'n iau. Gellir esbonio nifer uchel y gofalwyr yn y gymuned LHD yn rhannol yn sgil y gyfran uwch o bobl sydd ag anableddau (7.2%) sy'n arddel hunaniaeth LHD+ o'u cymharu â'r rheini nad ydyn nhw'n anabl (2.5%)<sup>55</sup>.

## Casgliad

---

Mae'r data hyn yn pwysleisio pa mor unigryw ac amrywiol yw natur y boblogaeth sy'n gofalu yng Nghymru. Mae hefyd yn atgyfnerthu'r angen i sicrhau bod gwasanaethau'n hawdd i'w deall, yn hyblyg i anghenion unigol pob defnyddiwr, ac yn sylfaenol, ar gael i bawb y mae angen cymorth arnyn nhw.

Serch hynny, mae rhai meysydd amlwg i'w hystyried yn ychwanegol at hynny.

Mae nifer uchel y gofalwyr sydd ag anableddau eu hunain, ac yn enwedig anableddau sy'n cyfyngu ar eu bywydau, yn golygu y dylid rhoi ystyriaeth o ddifrif i wneud mwy o waith ymchwil ac i gamau gweithredu posibl yn y maes hwn. Ceir diffyg dealltwriaeth o sefyllfaoedd lle bydd gan bobl anghenion ychwanegol a'r anghenion hynny'n croestorri ag anghenion ychwanegol pobl eraill. Mae'n annhebygol y rhoddir ystyriaeth ddigonol i hyn fel rhan o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd. Mae'n golygu bod posibilrwydd bod gofalwyr yn trefnu gofal i bobl eraill, tra bydd ganddyn nhw anghenion gofal eu hunain

<sup>49</sup> [https://www.llyw.cymru/cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-o-ran-rhywedd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html?\\_ga=2.69342480.1431844767.1684850326-738310462.1669900403&\\_gl=1\\*4fadt6\\*\\_ga\\*NzM4MzEwNDYyLjE2Njk5MDA0MDM.\\*\\_ga\\_L1471V4N02\\*MTY4NDg1MMDMyNS4zNS4xLjE2ODQ4NTAzNjYuMC4wLjA](https://www.llyw.cymru/cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-o-ran-rhywedd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html?_ga=2.69342480.1431844767.1684850326-738310462.1669900403&_gl=1*4fadt6*_ga*NzM4MzEwNDYyLjE2Njk5MDA0MDM.*_ga_L1471V4N02*MTY4NDg1MMDMyNS4zNS4xLjE2ODQ4NTAzNjYuMC4wLjA)

<sup>50</sup> <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>51</sup> <https://www.carersuk.org/briefings/policy-briefing-census-in-wales-2021/>

<sup>52</sup> <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/unpaidcareandprotectedcharacteristicsenglandandwales/census2021>

<sup>53</sup> Ibid

<sup>54</sup> Ibid

<sup>55</sup> <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/protectedcharacteristicsbydisabilitystatusenglandandwalescensus2021/2023-05-17>



ar yr un pryd, gan gynnwys o bosibl eu pecyn eu hunain o gymorth gan wasanaethau allanol.

Dyma faes y gallai pob parti elwa ohono, gan y gallai rhagdybiaethau anghywir fod yn arwain at wastraff yn y system, gan atal y gofalwyr hynny rhag cael y cymorth ychwanegol y mae ei angen arnyn nhw.

Mae hi hefyd yn weddol amlwg bod mwy y gellid ei wneud i gyrraedd gofalwyr o gefndir Asiaidd, er mwyn iddyn nhw'u hadnabod eu hunain fel gofalwyr ac er mwyn rhoi'r cymorth y mae ei angen arnyn nhw. Mae'r gwahaniaethau sylweddol wrth hunan-adnabod, boed wrth edrych ar grwpiau ethnig neu hunaniaeth grefyddol, yn ddigon achosol nes bod hwn yn faes y dylid ei asesu fel blaenoriaeth.

Mae cyfran y gofalwyr LHD+ o'i chymharu â phoblogaeth LHD+ gyffredinol Cymru yn dangos bod angen cymorth penodol ar y gymuned hon wrth ofalu, yn enwedig o ran yr heriau ychwanegol y gall y gymuned hon eu hwynebu<sup>56</sup>.

Dyma gyfle i sicrhau bod cymorth i ofalwyr di-dâl yn rhan o'r broses o wneud Cymru'n wlad sy'n gyfeillgar i bobl LHD+.

Mae treulio amser yn deall demograffeg gofalu yn gyfle i roi'r cymorth gorau posibl i'r grwpiau hyn sydd â nodweddion gwarchoddedig, yn ogystal ag i ofalwyr yn gyffredinol. Bydd hyn o fudd i Gymru gyfan yn y pen draw, gan fod gofalu yn rhan gwbl greiddiol o holl gyfansoddiad y genedl.

## Rhagor o wybodaeth

---

Gofalwyr Cymru  
5 Ynysbridge Court  
Caerdydd  
CF15 9SS

Ff 029 2081 1370  
E [info@carerswales.org](mailto:info@carerswales.org)  
G: [carerswales.org](http://carerswales.org)  
[@carerswales](https://www.carerswales.org)

Mae Gofalwyr Cymru yn rhan o Carers UK, elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (246329) ac yn yr Alban (SC)39307), a chwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (864097). Swyddfa gofrestrdig 20 Great Dover Street, Llundain SE1 4LX

© Carers UK (Wales) 2023

---

<sup>56</sup> <https://www.carersuk.org/media/f4ffnveg/carers-uk-lgbtq-briefing-2023-web.pdf>  
Briff Polisi | Mawrth 2023 | Cyfrifiad 2021



## **Rhagor o wybodaeth**

---

Gofalwyr Cymru  
5 Ynysbridge Court  
Caerdydd  
CF15 9SS

Ff 029 2081 1370  
E [info@carerswales.org](mailto:info@carerswales.org)  
G: [carerswales.org](http://carerswales.org)  
[@carerswales](https://www.instagram.com/carerswales)

Mae Gofalwyr Cymru yn rhan o Carers UK, elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (246329) ac yn yr Alban (SC)39307), a chwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (864097). Swyddfa gofrestredig 20 Great Dover Street, Llundain SE1 4LX

© Carers UK (Wales) 2023